**PANEL PENODIADAU ARBENNIG**
**(Y PRIF WEITHREDWR)**

Cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig [Y Prif Weithredwr] a gynhaliwyd yn Ystafell y Cabinet, Neuadd y Sir, Rhuthun, ar 20 Ebrill 2009 am 5.15 p.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr E W Williams (Cadeirydd), J Butterfield, C M Evans, H H Evans, R W Hughes, I Gunning, M M Jones, P J Marfleet, A G Pennington a J Thompson-Hill.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Personél, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Y Swyddog Personél (L M Jones), L Judd, M Owen ac A Porter (Gatenby Sanderson).

**YMDDIHEURIADAU**

Dim un

**RHAN I**

**890 MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**891 Y COFNODION**

Cafodd cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig [Y Prif Weithredwr] a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2009 [a ddosbarthwyd ymlaen llaw] eu cyflwyno.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo derbyn cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar 14 Ebrill 2009 fel cofnod cywir ac y dylent gael eu llofnodi gan y Cadeirydd..*

**892 EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *yn unol ag Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail y byddai eu presenoldeb yn debygol o arwain at ddatgeliad gwybodaeth eithriedig fel y caiff honno ei diffinio ym mharagraffau 12, 14 ac 15 o Ran 4 Sgediwl 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

**RHAN II**

**893 PENODIAD PRIF WEITHREDWR - LLUNIO RHESTR FER YN SGIL ASESIADAU**

Cyflwynodd Mr L Judd a'r Boneddigesau Owen a Porter (Gatenby Sanderson) yr asesiadau am bob un o'r pedwar ymgeisydd [roedd un wedi tynnu ei gais yn ôl ers cyfarfod diwethaf y Panel], gan grynhoi rhinweddau allweddol pob un ohonynt ac ymateb i gwestiynau'r Panel. Yn ogystal, cyflwynodd Mr L Judd, Pennaeth Personél a'r Swyddog Personél adroddiad am y gyfres o sesiynau'r panel.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i deilyngdod pob un o'r pedwar ymgeisydd a phenderfynwyd gwahodd y pedwar i fynychu'r Panel Penodiadau Arbennig ar ddydd Iau, 21 Ebrill, 2009.

***PENDERFYNWYD***

*(i)* *y dylai ymgeiswyr rhif 7, 9, 10 ac 13 gael eu gwahodd i fynychu'r Panel Penodiadau Arbennig ar ddydd Iau, 21 Ebrill 2009, am hanner dydd.*

*(ii)* *y bydd y Panel Penodiadau Arbennig, fel canlyniad i hynny, yn penderfynu pa rai o'r ymgeiswyr fydd yn mynd ymlaen i'r cyfweliad terfynol gan y Cyngor Llawn ar ddydd Mercher, 22 Ebrill, 2009.*

Daeth y cyfarfod i ben am 6.20 p.m.

**********